OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 951

## Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014

## RHAN 2

### Tystysgrifau, tystysgrifau dros dro a thrwyddedau

### PENNOD 2

### Trwyddedau

**Gofyniad i gael trwydded**

**12.** Yn ddarostyngedig i reoliadau 14 a 23(2), ni chaiff neb gyflawni gweithrediad a bennir yn rheoliad 13 ac eithrio o dan drwydded a gofrestrwyd gyda'r awdurdod cymwys, a hynny i'r graddau a awdurdodir gan y drwydded honno.